Adroddiad i'r:	**Pwyllgor Craffu Partneriaethau**
Dyddiad y Cyfarfod:	**11 Gorffennaf, 2019**
Aelod / Swyddog Arweiniol:	**Aelod Cabinet Arweiniol Tai a Chymunedau / Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd**
Awdur yr Adroddiad:	**Swyddog Ecoleg**
Teitl:	**Cynllun Cyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Fel corff cyhoeddus mae dyletswyddau statudol ar Gyngor Sir Ddinbych dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016). Mae Adran 6 y ddeddfwriaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol i ni geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth gyflawni eu dyletswyddau ac wrth wneud hynny, hyrwyddo gwydnwch ecosystemau. Yn ogystal, mae'n rhaid i ni baratoi a chyhoeddi cynllun yn amlinellu sut rydym yn bwriadu diwallu'r ddyletswydd. Cynllun Cyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth yw testun yr adroddiad hwn. Mae'r Cynllun Cyflawni'n rhoi manylion penodol ynglŷn â sut rydym ni, fel sefydliad, yn bwriadu cwrdd â'n rhwymedigaethau a gwneud gwahaniaeth go iawn i amddiffyn a gwella bioamrywiaeth o fewn Sir Ddinbych. Rhaid cyhoeddi'r cynllun a'r adroddiad cynnydd erbyn diwedd 2019. Gellir gweld y Cynllun Cyflawni yn Atodiad 1.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth sylfaenol ynglŷn â Chynllun Cyflawni Dyletswydd Bioamrywiaeth Cyngor Sir Ddinbych. Mae'r Cynllun Cyflawni'n rhagnodi nifer o weithredoedd ar gyfer Gwasanaethau ar draws yr Awdurdod. Mae ar y cam 'ymgynghori' ar hyn o bryd ac fel rhan o'r ymgynghoriad hwnnw, gwahoddir Craffu i wneud sylwadau cyn ei gyflwyno i'r Cabinet gyda chais i ardystio.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir bod y Pwyllgor:

a) Yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o'i ystyriaethau; ac

b) Yn amlygu unrhyw newidiadau yr hoffai eu gwneud cyn cyflwyno'r Cynllun Cyflawni i'r Cabinet gyda chais i ardystio.

4. Manylion yr adroddiad

Mae Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru), 2016 yn gorchymyn fod pob awdurdod cyhoeddus yn *"ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau fod hynny'n cyd-fynd ag arfer eu swyddogaethau'n gywir ac wrth wneud hynny, hyrwyddo gwydnwch ecosystemau".* I gydymffurfio â'r ddyletswydd adran 6, rhaid i awdurdodau cyhoeddus fewnoli ystyriaethau ynghylch bioamrywiaeth ac ecosystemau i'w hystyriaethau cynnar a'u cynllunio busnes, gan gynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau bob dydd. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus baratoi a

chyhoeddi cynllun yn amlinellu'r hyn maent yn bwriadu ei wneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth, a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau.

Mae Cynllun Cyflawni Drafft Deddf yr Amgylchedd Cyngor Sir Ddinbych yn amlinellu sut, fel sefydliad, rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r ddyletswydd bioamrywiaeth dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r Cynllun Cyflawni'n nodi nifer o ganlyniadau yr hoffem eu cyflawni, i helpu atal a gwyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a sicrhau y caiff Amgylchedd naturiol Sir Ddinbych ei ddiogelu a'i wella ar gyfer trigolion ac ar gyfer bywyd gwyllt.

Mae'r cynllun yn darparu dull strwythuredig, yn amlinellu'r gweithredoedd allweddol a nodi'r gwasanaethau mwyaf perthnasol i arwain ar y gweithredoedd hynny. Bydd nifer o fesuryddion perfformiad yn cael eu defnyddio i bennu llwyddiant y gweithredoedd yn y cynllun, gan ganiatáu i ni adrodd ar ein llwyddiannau, fel sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth (bydd rhaid cyhoeddi adroddiad ar yr hyn mae'r awdurdod cyhoeddus wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd erbyn diwedd 2019 a bob tair blynedd wedi hynny).

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae bioamrywiaeth yn flaenoriaeth gorfforaethol dan bennawd Yr Amgylchedd Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych 2017 – 2022. Mae gennym darged penodol, sef *"Cynyddu ansawdd bioamrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau ar draws y sir".* Mae'r Cynllun Cyflawni yn amlinellu amcanion a gweithredoedd clir i gyflawni cynnydd mewn bioamrywiaeth yn y sir, gyda mesuryddion perfformiad penodol a mesuradwy. Gan hynny, mae'r Cynllun Cyflawni'n cyfrannu'n uniongyrchol at Flaenoriaethau Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes cost benodol yn gysylltiedig â'r Cynllun Cyflawni. Nod y ddogfen yw gwella bioamrywiaeth yn Sir Ddinbych, ac mae'r cynllun yn amlinellu dulliau penodol y gall staff a gwasanaethau helpu cyflawni hyn.

Yn aml, newidiadau bychan, syml sy'n cael yr effaith fwyaf, ac mae'r rhain yn ganolbwynt i lawer o'r Cynllun Cyflawni. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn cynnwys adolygu dulliau gweithio cyfredol, ac addasu'r rhain i fod yn fwy ecogyfeillgar. Mewn rhai achosion, gall hyn olygu arbed costau.

Mae prosiectau eraill sy'n canolbwyntio'n benodol ar fioamrywiaeth ac wedi derbyn cyllid allanol wedi eu cynnwys yn y cynllun er mwyn cofnodi pob gweithred. Bydd cymorth a chyngor yn cael eu rhoi i wasanaethau eraill gan y Swyddog Ecoleg a'r Swyddog Bioamrywiaeth. Y bwriad yw ymgorffori'r mesurau penodol a amlinellir yn y cynllun mewn cynlluniau gwasanaeth unigol i sicrhau eu bod wedi eu cwblhau ac yr adroddir arnynt yn effeithiol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Fel awdurdod lleol mae dyletswydd statudol arnom bellach i weithredu'n gynaliadwy ac arwain drwy esiampl pan ddaw i ddiogelu a gwella ein hamgylchedd naturiol. I gwrdd â'r her o wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, mae'n hanfodol ein bod yn gweithredu rŵan a sicrhau ein bod fel awdurdod lleol yn diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain.

Mae cynllun cyflawni dyletswydd bioamrywiaeth Cyngor Sir Ddinbych yn amlinellu sut, fel sefydliad, y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'i dyletswydd bioamrywiaeth dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac yn sgil hynny, helpu cyflawni ei amcanion dan y Cynllun Adfer Lles a Natur dros y cyfnod 2016-19. Mae'r Asesiad Effaith ar Les wedi dangos y bydd mabwysiadu'r ddogfen hon yn alinio'r cyngor gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er mai dogfen fewnol yw hon i raddau helaeth, bydd y bendithion yn cael eu teimlo gan drigolion ledled y sir.

Cwblhawyd yr Asesiad Effaith ar Les ar ôl cynhyrchu drafft cyntaf y ddogfen. Cwblhawyd hyn gan Joel Walley a Huw Rees. Cafodd ei gynnwys yma yn Atodiad 2.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Aethpwyd â'r Cynllun Cyflawni i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar 17 Ionawr 2019 lle rhoddwyd cefnogaeth gref iddo. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd ymgynghoriad mewnol, ac anfonwyd y ddogfen i bob rheolwr canol i gael eu sylwadau, gyda'r ymgynghoriad yn dod i ben ar 5 Ebrill 2019. Cafwyd sylwadau gan Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Contractau a Chyfleusterau, Rheoli Asedau Strategol, Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu, a Chynllunio a Pherfformiad Strategol. Roedd eu sylwadau'n amrywio o ymholiadau syml ynghylch yr hyn y bydd ei angen gan eu gwasanaeth, i ymatebion cymhleth ar y gweithredoedd presennol maent yn eu cymryd a beth y gallan nhw ei wneud i helpu cyflawni'r cynllun. Hyd yma, mae pawb wedi bod yn gefnogol i'r Cynllun Cyflawni a'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Fel y soniwyd uchod, nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Mae gan y gwasanaeth hanes cadarn o sicrhau cymaint a phosibl o incwm grantiau allanol i helpu ariannu prosiectau ac mae hynny i'w groesawu'n fawr tra bod pwysau'n parhau ar gyllid y Cyngor.

10. Pa risgiau sydd ac oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae Llywodraeth Cymru yn gorchymyn fod pob corff cyhoeddus yng Nghymru'n cynhyrchu cynllun i gydymffurfio â'r ddyletswydd bioamrywiaeth dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Gall methiant i gydymffurfio arwain at adolygiad o weithgareddau Cyngor Sir Ddinbych mewn perthynas â bioamrywiaeth.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000. Mae gan yr Awdurdod Lleol y grym i wneud unrhyw beth y maent yn ystyried sy'n debygol o fynd ati i hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ei ardal.

11.2 Mae Adran 7.4 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi grymoedd Craffu o ran datblygu ac adolygu polisi.

Swyddog Cyswllt:
Swyddog Ecoleg
Ffôn: 01824 712762